# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 16 Gorffennaf 2013**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(147)

**Bydd y Cyfarfod Llawn yn dechrau pan ddaw Pwyllgor o'r Cynulliad cyfan i ben. Bydd y Pwyllgor o'r Cynulliad cyfan yn cychwyn am 13.30**

Pwyllgor o'r Cynulliad Cyfan

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 17.45

Gofynnwyd cwestiynau 1 i 5, 7 i 10, 12 i 13 ac 15. Tynnwyd cwestiynau 6 ac 14 yn ôl. Ni ofynnwyd cwestiwn 11. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 18.34

### 3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Y Rhaglen Ddeddfwriaethol

Dechreuodd yr eitem am 18.49

### 4 Rheoliadau Credyd Cynhwysol (Darpariaethau Canlyniadol) (Gofal Plant, Tai a Thrafnidiaeth) (Cymru) 2013

Dechreuodd yr eitem am 19.47

**NDM5293 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Credyd Cynhwysol (Darpariaethau Canlyniadol) (Gofal Plant, Tai a Thrafnidiaeth) (Cymru) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mehefin 2013.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

### 5 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol – gohiriwyd

### 6 Dadl: Y Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2013-14

Dechreuodd yr eitem am 19.55

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**NDM5278 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 20.30, yn cymeradwyo'r Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2012-13 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ddydd Mawrth, 25 Mehefin 2013.

Troednodyn:

Yn unol â'r darpariaethau perthnasol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 20, mae'r Gyllideb Atodol yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

(i) y datganiad ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan adran 125(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru;

(ii) yr adnoddau y cytunwyd arnynt gan y Trysorlys ar gyfer cyllideb bloc Cymru yn y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn ymwneud â hi;

(iii) cysoniad rhwng yr adnoddau a ddyrannwyd ar gyfer cyllideb bloc Cymru gan y Trysorlys a'r adnoddau yr awdurdodir eu defnyddio yn y cynnig;

(iv) cysoniad rhwng y symiau amcangyfrifol sydd i'w talu i Gronfa Gyfunol Cymru gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r symiau yr awdurdodir eu talu o'r Gronfa yn y cynnig; a

(v) cysoniad rhwng yr adnoddau i'w hawdurdodi o dan adran 125(1)(a) a (b) o'r Ddeddf a'r symiau yr awdurdodir eu talu o Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 125(1)(c).

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 38 | 12 | 0 | 50 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd yr eitem am 20.28

Daeth y cyfarfod i ben am 20:29

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 17 Gorffennaf 2013**